



Parthed: 'Menter Llechan Lan', Ysgol Pentreuchaf.

"Gallwn roi dau beth pwysig i'n plant, un yw gwreiddiau a'r llall yw adenydd". Dyma yw gweledigaeth ein hysgol, ac yn wir dyma yw gwraidd yr hyn addysgir i'n disgyblion yn feunyddiol, ac mae'r fenter uchod yn garreg arall yn y ffordd o wireddu ein gweledigaeth.

Yn ei hanfod, mae'r fenter hon gan y plant yn defnyddio llechi o Wynedd a dyluniadau o waith y plant i gynhyrchu llechi gweini bwyd drwy gydweithio â chwmni *Cerrig* ym Mhwillheli. Rhan arall o'r fenter yw creu partneriaethau gyda chwmnïau cynhyrchu / darparu bwyd yn y gogledd-orllewin i ddefnyddio'r llechi hyn mewn pecynnau arbennig.

Plannwyd yr hadyn wrth drin a thrafod y tomennydd llechi sydd i'w gweld yn ardaloedd Llanberis, Dyffryn Nantlle a Ffestiniog fel rhan o themâu dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 (disgyblion 7-11 oed). Datblygodd hyn yn waith prosiect Dylunio a Thechnoleg gan geisio meddwl am ddefnydd da o weddillion y garreg las. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn esblygu gan greu amryw o gysylltiadau gyda rhanddeiliaid yr ysgol, Prifysgol Bangor, *Menter yr Ifanc* a chwmnïau llwyddiannus yr ardal megis *Cerrig*, *Hufenfa De Arfon* a *Halen Môn*.

Mae Cwmni *Cerrig*, Pwllheli, wedi cynnal ymweliad llwyddiannus â'r disgyblion gan ddechrau trin a thrafod y diwydiant llechi modern, ac yn garedig iawn, wedi cytuno i dorri cynddelwau / *prototypes* o waith y disgyblion yn dilyn gwaith ymchwil.

Mae un o gwmnïau cydweithredol llaeth mwyaf blaenllaw Cymru, Hufenfa De Arfon, yn awyddus iawn i gydweithio a buddsoddi yn y fenter gyda'r bwriad o brynu llechi gan er mwyn hyrwyddo eu caws '*Llechwedd*' a'u menyn hallt '*Dragon*'. Mae'r disgyblion wedi cyflwyno eu cynnyrch gan geisio gwerthu'r syniad yn ffurfiol ar ffurf '*Dragon's Den*' i gyfarwyddwyr a rhanddeiliaid Hufenfa De Arfon ar y 14eg o Fehefin 2016.

Yn wir, mae Hufenfa De Arfon yn bwriadu lansio cynnyrch 'Menter Llechen Lan' ynghyd a chaws *Llechwedd* a Menyn *Dragon* yn Sioe Frenhinol Cymru 2016 cyn eu dosbarthu i'w cyflenwyr gan gynnwys archfarchnad *Sainsbury*!

Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yr ysgol ar fin cychwyn uned o waith 'Ein Busnes' dan arweiniad yr elusen Menter yr Ifanc er mwyn dysgu sut mae mynd ati i sefydlu busnes ynghyd a datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhellach.

Yn ogystal â chreu cysylltiadau a chwmnïau lleol ym Mhen Llŷn ac Eifionydd, mae'r ysgol wedi creu cyswllt gyda chwmni Halen Môn. Bu swyddog marchnata'r cwmni ymweld â'r disgyblion gan roi cefndir y cwmni a'r cynnyrch iddynt fel rhan o waith ymchwil y disgyblion. Mae'r cwmni yn awyddus i Fenter Llechan Lan fynd rhagddi i greu darn o lechen ddeniadol i gyd-fynd a'u halen enwog. Gan sefydlu'r un drefn a Hufenfa De Arfon, bwriedir lansio'r cynnyrch newydd ym mis Tachwedd 2016 i'w gwerthu fel pecyn anrheg mewn ffeiriau lleol a drwy cyflenwyr Halen Môn sy'n ymestyn dros y byd.

Yn ogystal â'r cwmnïau sefydledig uchod, mae tŷ bwyta / clwb nos newydd 'Venu', sy'n cyflogi 40 o bobl leol ym Mhwlheli, hefyd yn awyddus iawn i brynu byrddau llechi ar gyfer cyflwyno caws ac ati gan Fenter Llechan Lan.

Drwy gyswllt un o rieni a llywodraethwr Ysgol Pentreuchaf, mae trafodaethau ar y gweill i werthu cynnyrch Menter Llechen Lân yn siop enwog *Fortnum & Mason* yn Llundain yn ogystal!

Rydym eisïau i blant adael Ysgol Pentreuchaf yn ddisgyblion hyderus gyda chariad at addysg, gyda sgiliau trafod da a hygreddedd personol ac yn abl i wynebu sialens. Rydym i eisïau i'r disgyblion allu dysgu'n annibynnol yn ogystal â defnyddio sgiliau cydweithio; fod yn ymwybodol o'r safonau a ddisgwylir ganddynt; fod yn gwybod sut i wella eu gwaith a datrys problemau'n greadigol; fod â'r gallu i ddefnyddio'r adnoddau maent eu hangen ar gyfer datblygu; fod yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn wynebu anhawster; ac yn medru defnyddio sgiliau ymchwilio i ddod o hyd i atebion.

Er mwyn i hyn fod yn bosibl, rhaid i'r cwricwlwm eu hysgogi, fod yn aml-synhwyrol, a rhaid i'r addysgu fod wedi ei gynllunio fel bod y plant yn weithredol yn y broses o ddysgu yn hytrach nag yn derbyn popeth ar blât. Mae'r fenter hon yn caniatáu i'r cwricwlwm fod yn un eang ac yn llawn diddordeb a phrofiadau i'r plant, ac yn un a wnaiff roi cyfle iddynt ddatblygu i'w llawn botensial.

Er mwyn gwireddu'r fenter, mae'r ysgol ar hyn o bryd yn ymgeisio am gefnogaeth ariannol gan gynnwys grant cymdeithasol ac economaidd cwmni *Magnox*. Er hyn, mae angen cyllid cyfatebol er mwyn llwyddo yn y cais. Mae'r nawdd yma yn hanfodol er mwyn gallu mynd rhagddi i dorri a chynhyrchu'r llechi gan ddefnyddio peiriannau arbenigol cwmni *Cerrig*. Yn wir, mae cymuned yr ysgol a'r cwmnïau lleol yn hyderus bydd y fenter yn llwyddo.

Yn wir, rhaid cofio mai plant Ysgol Pentreuchaf sy'n ganolog yn hyn i gyd. Ein bwriad fel ysgol yw datblygu sgiliau hunan hyder, cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a mentergarwch ein disgyblion, yn ogystal â pharatoi'r disgyblion ar gyfer addysg bellach gan barchu a gwerthfawrogi ein gwreiddiau a'r cyfoeth sydd gennym yng Ngogledd Orllewin Cymru, a rhoi'r hyder a'r gallu iddynt ffynnu yn economaidd yng Ngwynedd - "gwreiddiau ac adenydd".

Yn ddiffuant

Gethin E Thomas
Pennaeth Ysgol Pentreuchaf